# Deall profiadau pobl o fudo

**Pwnc:** Ffoaduriaid a Mudo
**Grŵp oedran:** 10-16
**Math:** Gwers lawn
**Amser:** 1 awr

# Canllaw i Athrawon.

## Deilliannau dysgu

1. Dysgu sut gallai deimlo i gael eich gorfodi i adael cartref.
2. Defnyddio eich gwybodaeth i ymarfer empathi, drwy ddarganfod beth sy'n debyg rhyngom ni a'r rhai sy'n mudo.
3. Rhannu sut gallwch chi helpu ffoaduriaid a phobl sy'n ceisio lloches i deimlo bod croeso iddyn nhw yn eich cymuned

## Beth fydd ei angen arnoch

- PowerPoint Deall Ffoaduriaid a Mudo
- Adnodd dewisol i'w argraffu (t.4-6)

## Diffiniadau


**Ffoadur:** person sydd wedi gadael ei wlad enedigol – oherwydd ofn dilys o gael ei erlid am resymau hil, crefydd, cenedligrwydd, aelodaeth o grŵp cymdeithasol penodol neu farn wleidyddol. O ganlyniad, nid yw'n gallu neu'n fodlon ceisio cael ei amddiffyn rhag ei wlad ei hun, na dychwelyd iddi.
**Ceisiwr Lloches:** Rhywun sydd wedi gadael ei wlad enedigol ac wedi gwneud cais ffurfiol i gael ei gydnabod fel ffoadur mewn gwlad arall ac sy'n aros am benderfyniad ynghylch ei gais.
**Empathi:** Y gallu i ddeall ac uniaethu â theimladau rhywun arall.
Mae rhagor o wybodaeth am y termau hyn ar gael yma.

## Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Astudiaethau cymdeithasol, daearyddiaeth, cymdeithaseg, addysg ddinesig, ac athroniaeth. Mae cysylltiadau hefyd â phynciau fel ABGI, addysg dinasyddiaeth, ac addysg hawliau dynol, a allai gael eu cynnig ar draws y cwricwlwm. Yn olaf, gall cyrsiau celfyddydau iaith neu lenyddiaeth hefyd fod yn addas ar gyfer y dull seiliedig ar drafod a'r addysgeg weithredol y mae'r sesiwn hon yn seiliedig arni.

## Cefndir

Cynhyrchwyd yr adnodd hwn ar y cyd gan 6 llysgennad o'r Rhwydwaith LLEISIAU, sef pobl sydd â phrofiad uniongyrchol o fudo. Nhw oedd yn penderfynu ar negeseuon allweddol yr adnodd ac aethon nhw ati i greu'r gweithgareddau i ymwneud â'r hyn roedden nhw am i bobl ifanc yn y DU ei ddysgu am y profiad o fod yn ffoadur neu geisio lloches mewn gwlad arall. Gwyliwch y fideo i gael gwybod mwy:




Mae'r llysgenhadon yn rhannu eu straeon personol am fudo drwy gydol yr adnodd.

**Gweithgaredd 1: I ddechrau**
(5 munud)

Gofynnwch i'r dysgwyr rannu'r dewis diwethaf maen nhw wedi'i wneud heddiw neu ewch drwy'r dewisiadau ar y sleid gan ofyn i'r dysgwyr bleidleisio.

Gofynnwch y cwestiynau dilynol: A oedd yn ddewis hawdd ei wneud neu a oedd yn benderfyniad mawr? A wnaeth eich dewis effeithio ar unrhyw un arall? Sut oeddech chi'n teimlo os nad oeddech chi'n hoffi'r naill opsiwn na'r llall?

**Cwestiwn allweddol: Sut fyddai'n teimlo i gael eich gorfodi i adael eich cartref?**

**Gweithgaredd 2: Dysgu**
(15-20 munud)

Chwaraewch yr animeiddiad. Mae'n stori am deulu o adar sy'n cael eu dadleoli pan fydd gwrthdaro'n eu gorfodi i adael eu cartref i ddod o hyd i gartref diogel mewn coeden newydd yn bell i ffwrdd. Wrth iddyn nhw wylio, gofynnwch i'r dysgwyr nodi'r dewisiadau mae'r adar yn eu gwneud ar eu taith.

Ar ôl y fideo, gellir rhannu eu hatebion â'r grŵp ehangach drwy drafod neu gellir eu hysgrifennu ar nodiadau post-it mewn man canolog. Gall yr atebion gynnwys:

- A ddylid aros mewn man peryglus neu adael eu cartref i fynd i rywle dieithr
- Pa lwybr ddylen nhw ei ddilyn ar eu taith
- Pa fath o drafnidiaeth fyddan nhw'n ei defnyddio
- A ddylid ymddiried yn yr adar newydd neu fynd ymlaen heb help

Gofynnwch i'r disgyblion gynnig awgrymiadau am yr hyn maen nhw'n credu y mae'r adar yn ei gynrychioli yn y trosiad.
Gorffennwch gyda gweithgaredd myfyriol – dewiswch awgrymiadau opsiwn A neu B i ysgrifennu paragraff ar eich pen eich hun neu trafodwch y pwnc â chyd-fyfyriwr gan ddefnyddio fformat meddwl, paru, rhannu.

**Gweithgaredd 3: Dysgu**
(10 munud)

Ar ôl edrych ar y trosiad adar, byddwn nawr yn clywed stori ffoadur o Syria. Gwrandewch ar y darn ymlaen llaw i wneud yn siŵr bod y cynnwys yn briodol i'ch dysgwyr.

Chwaraewch y clip o'r podlediad am daith Mada. Gofynnwch i'r dysgwyr fyfyrio ar y dewisiadau anodd a wnaeth Mada a rhannu sut roedd gwrando'n gwneud iddyn nhw deimlo.

**Cwestiwn allweddol: Sut ydych chi'n teimlo ar ôl gwrando ar y stori?**

**Gweithgaredd 4: Gweithredu**
(15 munud)

Gan ddefnyddio sleidiau PowerPoint yr "ystafell flêr" gofynnwch i'r dysgwyr ddewis delwedd yn yr ystafell. Cliciwch ar yr eitem a gofyn i'r dysgwyr ddisgrifio'r eitem a beth allai ei olygu i'r person sy'n gyfrifol am yr ystafell.

Cliciwch eto i weld y stori go iawn y tu ôl i bob eitem. Gofynnwch i'r dysgwyr a yw hyn yn wahanol i'r hyn roedden nhw'n ei feddwl neu a yw hyn yn eu synnu.

Edrychwch ar y darn "gwybod mwy"/"oeddech chi'n gwybod" gyda'r grŵp – atebwch y cwestiynau fel grŵp neu dilynwch unrhyw un o'r tasgau a awgrymir.

**Fersiwn weithredol:** Rhowch enghreifftiau go iawn o'r eitemau neu luniau wedi'u hargraffu o'r eitemau o amgylch yr ystafell. Gofynnwch i'r dysgwyr gerdded o gwmpas ac ysgrifennu'r hyn maen nhw'n ei feddwl am bob eitem ar nodiadau post-it neu ar ddarn o bapur wrth ymyl yr eitem (beth yw'r eitem a beth allai ddweud wrthym am y person).

Pan fydd pawb wedi gorffen, eisteddwch ac ewch drwy'r sleidiau PowerPoint gan drafod y straeon a'r ffaith ddiddorol y tu ôl i bob eitem.

## Gweithgaredd 5: Rhannu
(5-10 munud)

**Cwestiwn allweddol: Beth allwch chi ei wneud i helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn eich ardal chi?**

Gofynnwch i'r dysgwyr fyfyrio ar ddiwedd yr animeiddiad o'r adar. Sut wnaeth y gymuned newydd helpu i adeiladu cartref newydd i'r teulu? Sut wnaeth y gymuned newydd wneud iddyn nhw deimlo eu bod yn cael croeso?

Dilynwch hyn drwy ofyn pa weithredoedd bach y gallen nhw eu gwneud i wneud i ffoaduriaid a cheiswyr lloches deimlo bod croeso iddyn nhw yn eu hysgol neu gymuned. Yna, gall y dysgwyr drafod syniadau â'u cyfoedion. Dangoswch yr awgrymiadau gan y Rhwydwaith LLEISIAU i gefnogi'r dysgu os oes angen.

Dylid rhannu atebion, syniadau a barn â'r grŵp ehangach.

**Opsiwn addewid dosbarth**: gofynnwch i'r dysgwyr ddewis gweithred fach o garedigrwydd yr un, bob wythnos, i'w gwneud am fis. Glynwch hyn ar y wal. Trefnwch sgwrs ddilynol â'r grŵp i weld a wnaeth pawb eu gweithredoedd bach o garedigrwydd.

Gofynnwch i'r dysgwyr sut maen nhw'n gallu rhannu'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu heddiw neu addewid eu dosbarth yn ehangach yn yr ysgol, er enghraifft, mewn gwasanaeth. Gallech hefyd archwilio ymgeisio am ddyfarniad Ysgol Noddfa gyda'ch gilydd.

## Cyfleoedd asesu

**Gweithgaredd 2 -** paragraff cryno.
**Gweithgaredd 4 -** gall myfyrwyr weithio ar brosiect unigol neu grŵp ar ffordd o rannu gweithredoedd bach o garedigrwydd â chynulleidfa ehangach. Dylid annog defnyddio gwahanol gyfryngau. Ffilm, hysbyseb, podlediad, poster ac ati.

## Addasiadau

**Dysgu –** fersiwn weithredol lle mae myfyrwyr yn symud o gwmpas yr ystafell i weld y gwrthrychau.

**Gweithredu –** canlyniad y myfyrio ar ôl y fideo: ar gyfer dysgwyr hŷn opsiwn B ac ar gyfer dysgwyr iau opsiwn A (neu feddwl am fformat yr allbwn, sef llafar neu ysgrifenedig).

**Adnoddau Ychwanegol**
1. Adnoddau eraill ar thema Ffoaduriaid a Mudo
2. Adnoddau Newsthink



The British Red Cross Society, incorporated by Royal Charter 1908, is a charity registered in England and Wales (220949), Scotland (SC037738), Isle of Man (0752), and Jersey (430).

BritishRedCross



The British Red Cross Society, incorporated by Royal Charter 1908, is a charity registered in England and Wales (220949), Scotland (SC037738), Isle of Man (0752), and Jersey (430).

BritishRedCross



The British Red Cross Society, incorporated by Royal Charter 1908, is a charity registered in England and Wales (220949), Scotland (SC037738), Isle of Man (0752), and Jersey (430).

BritishRedCross



The British Red Cross Society, incorporated by Royal Charter 1908, is a charity registered in England and Wales (220949), Scotland (SC037738), Isle of Man (0752), and Jersey (430).

BritishRedCross



The British Red Cross Society, incorporated by Royal Charter 1908, is a charity registered in England and Wales (220949), Scotland (SC037738), Isle of Man (0752), and Jersey (430).

BritishRedCross



The British Red Cross Society, incorporated by Royal Charter 1908, is a charity registered in England and Wales (220949), Scotland (SC037738), Isle of Man (0752), and Jersey (430).

BritishRedCross